| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Mehefin 2017** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Karen Evans** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant** |
| **Teitl:** | **Ysgol Gatholig 3-16 newydd Arfaethedig yn y Rhyl** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Aelodau'r Cabinet am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair (Ysgol Mair) ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019; ac i Esgobaeth Gatholig Wrecsam sefydlu Ysgol Gatholig newydd 3-16 oed ar y safle presennol o 1 Medi 2019.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i roi cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i'r cam nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

(i) Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair (Ysgol Mair) ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac agor ysgol Gatholig newydd 3-16 oed.

(ii) Cymeradwyo'r penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych i gau Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair (Ysgol Mair) ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019; ac i Esgobaeth Gatholig Wrecsam sefydlu Ysgol Gatholig newydd 3-16 oed ar y safle presennol o 1 Medi 2019.

(iii) Dylai'r Cabinet gadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych, mewn partneriaeth ag Esgobaeth Wrecsam wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y bwriad i gau ysgol gynradd Gatholig y Santes Fair (Ysgol Mair) ac Ysgol Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019 ac i Esgobaeth Wrecsam sefydlu ysgol Gatholig newydd 3-16 oed ar y safle presennol o 1 Medi 2019. Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 15 Chwefror 2017 a daeth i ben ar 30 Mawrth 2017.

4.2 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ystod o gyfarfodydd ar gyfer budd-ddeiliaid gan gynnwys cyfarfod cyhoeddus dan arweiniad y Gwir Barchedig Peter M.Brignall, Esgob Wrecsam, ac roedd oddeutu 100 o bobl yn bresennol.

4.3 At ei gilydd, cawsom 106 o ymatebion – 1 llythyr, 5 e-bost a 100 o ffurflenni ymateb safonol – 72 ar-lein a 28 ar ffurflenni papur. Yn ogystal cawsom 73 o ffurflenni ymateb gan Blant. O'r 106 o ymatebion a gafwyd, roedd 98 o blaid y cynnig, 5 yn erbyn ac ni wnaeth 3 ddatgan y naill ffordd na'r llall.

4.5 Mae angen i aelodau ystyried adroddiad yr ymgynghoriad a'r dogfennau ategol sydd wedi cael eu cynhyrchu yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Er hwylustod, rhoddir manylion y rhain isod:

- Mae Atodiad 1 yn cynnwys adroddiad ymgynghori ffurfiol. Yn yr adroddiad mae'n rhaid i ni;
    - Rhoi crynodeb o bob un o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd â nhw;
    - Ymateb i'r materion hyn drwy roi eglurhad,
    - Amlinellu barn Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynnig.

  Mae dogfen yr adroddiad ymgynghori ffurfiol yn cynnwys yr atodiadau canlynol:

  Atodiad A - Rhestr o'r rhai a fydd yn derbyn y Ddogfen Ymgynghori
  Atodiad B – Crynodeb o sylwadau / cwestiynau a godwyd mewn cyfarfodydd
  Atodiad C – Canfyddiadau'r Cyngor Ysgol
  Atodiad D – Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd drwy lythyr ac e-bost
  Atodiad E – Crynodeb o ymatebion drwy ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad Ffurfiol
  Atodiad F – Ymateb Estyn

## 5. Y Ffordd Ymlaen

5.1 O adolygu'r wybodaeth hon, argymhellir bod y Cyngor yn mynd ati i gyhoeddi rhybudd statudol ar sail y cynnig presennol. Bydd yn ofynnol i'r Rhybudd Statudol gael ei gyhoeddi am 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn o 28 diwrnod, dylai unrhyw un sydd am wneud gwrthwynebiadau i'r cynnig gael y cyfle i wneud hynny. Y bwriad yw, yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd y cynnig hwn yn cael ei gyhoeddi ar 20 Mehefin 2017 gyda'r cyfnod gwrthwynebu yn dod i ben ar 17 Gorffennaf 2017. I gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

5.2 Yn dilyn y dyddiad hwn, bydd angen i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau a bydd angen i'r Cabinet ddefnyddio ei rymoedd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd ac i benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig. Mae'r penderfyniad terfynol yn debyg o gael ei wneud ym mis Medi / Hydref 2017.

5.3 Mae Esgobaeth Wrecsam wedi nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ac yn llwyr gefnogi'r penderfyniad i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol ar gyfer y cynnig.

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

6.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn:

> "Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, a'u bod o'r math cywir, yn y lleoliad cywir."

## 7. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1 Bydd costau bychan i'r Cyngor drwy gyhoeddi'r hysbysiadau statudol. Bydd y rhain yn gostau postio ac argraffu yn gysylltiedig â chyhoeddi. Mae'r gofyniad i hysbysiadau o'r fath gael eu cyhoeddi mewn papurau lleol wedi cael ei ddileu, gan leihau costau o'r fath.

## 8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les gyflawn oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

8.1 Gweler yr atodiad Asesiad o Effaith ar Les – Ysgol Gatholig 3-16 newydd yn y Rhyl.

## 9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

9.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid ac mae crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghori ffurfiol ym mhrif gorff yr adroddiad. Mae'r ddau Gorff Llywodraethu yn llwyr gefnogol i'r cais.

## 10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10.1 Y gyllideb gyffredinol sydd wedi'i hamcangyfrif ar gyfer y prosiect hwn ar hyn o bryd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor yw £23.8 miliwn. Ariennir y gyllideb mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn unol â holl Gynlluniau Ysgolion yr 21ain ganrif mae'n rhaid i'r cyngor ddarparu'r costau cychwynnol er mwyn datblygu achos busnes llawn cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i'w gyfran o'r cyllid. Yn yr un modd, er mwyn cyflawni'r terfynau amser a amlinellwyd, rhaid cynnal prosesau ffurfiol cyn y caiff yr achos busnes manwl ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Er bod yr ymagwedd hon yn cynnwys rhywfaint o risg, ni fyddai modd bwrw ymlaen â'r prosiect fel arall.

## 11. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

11.1 Er mwyn sicrhau y cyflawnir y garreg filltir allweddol, sef agor yr ysgol erbyn mis Medi 2019, bydd rhaid rheoli’r risgiau sydd ynghlwm â'r broses.

11.2 Yn unol â’r ymagwedd gyda phrosiectau, byddwn yn bwrw ymlaen â’r cam dylunio ar ein risg ni yn unol â chymeradwyo’r pecyn cyllid cyffredinol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, oherwydd bod rhaid datblygu’r cam cynllunio er mwyn cyrraedd y cam hwn, ystyrir hon yn risg dderbyniol. Y gwahaniaeth yn yr ymagwedd hon yw y bydd rhaid i'r cynigion trefniadaeth ysgol gydredeg â’r camau dylunio.

## 12. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)